Cronfa Bensiwn Gwynedd

# Polisi Adrodd am Dor-cyfraith

| | |
|---|---|
| Dyddiad y daw'r polisi i rym | |
| Dyddiad cymeradwyo | |
| Adolygiad nesaf | |

DRAFT

# Cynnwys

Cronfa Bensiwn Gwynedd - Polisi Adrodd am Dor-cyfraith — Tudalen

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 2 |
| 2 | Datganiad o Egwyddorion | 4 |
| 3 | Polisi | 5 |
| 4 | Proses | 9 |
| 5 | Polisïau Cysylltiedig | 11 |
| 6 | Atodiad A: Sefyllfaoedd enghreifftiol | 12 |

# 1 Cyflwyniad

### 1.1 Cefndir

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd ("y Gronfa") wedi paratoi'r ddogfen hon wrth sefydlu ei pholisi a'i gweithdrefnau ar adnabod, rheoli, a lle bo'r angen, adrodd am dor-cyfraith fel y nodir ym mharagraffau 241 i 275 Cod Ymarfer rhif 14 y Rheoleiddiwr Pensiynau: *Governance and administration of public service pension schemes* (“y Cod Ymarfer").

Mae'r polisi hwn yn nodi cyfrifoldeb aelodau etholedig, swyddogion Cyngor Gwynedd ("y Cyngor"), a bwrdd pensiwn lleol y Gronfa i adnabod, rheoli a lle bo'r angen, i adrodd am dor-cyfraith fel mae yn berthnasol i reoli a gweinyddu'r Gronfa. Nid yw'r polisi hwn yn ymdrin â chyfrifoldeb "adroddwyr" eraill (a ddisgrifir yn ddiweddarach yn y polisi hwn), mewn perthynas â'u rhwymedigaeth i adrodd am dor-cyfraith yn unol â'r Cod Ymarfer lle maent yn ymwneud â rheoli a gweinyddu'r Gronfa. Lle mae tor-cyfraith yn cael ei adnabod, bydd yr holl bartïon yn cymryd y camau angenrheidiol i ystyried y tor-cyfraith ac yn adrodd i'r Rheoleiddiwr, yn hytrach na chael un o'r "adroddwyr" eraill yn adrodd am y tor-cyfraith yn unig.

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Cyngor yn flynyddol fan leiaf. Bydd y Cyngor yn monitro pob tor-cyfraith ac yn sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu dyrannu i reoli a gweinyddu'r broses hon.

Swyddog Monitro'r Cyngor fydd yn gyfrifol am reoli a gweithredu'r polisi tor-cyfraith hwn.

Bydd y Swyddog Adran 151 yn sicrhau bod hyfforddiant ar dor-cyfraith a'r polisi hwn yn cael ei gynnal ar gyfer yr holl swyddogion ac aelodau etholedig perthnasol, ynghyd ag aelodau'r bwrdd pensiwn lleol pan fyddant yn cael eu hanwytho ac ar sail barhaus.

### 1.2 Nodau ac amcanion

Mae nodau ac amcanion yr awdurdod gweinyddu, mewn perthynas â'r polisi hwn, fel a ganlyn:

- Rhoi eglurder i aelodau etholedig, aelodau'r bwrdd pensiwn a swyddogion, ynghylch yr amgylchiadau lle y gallai tor-cyfraith fod wedi digwydd.
- Amlinellu'r egwyddorion allweddol i'w hystyried wrth asesu unrhyw dor-cyfraith, neu dor-cyfraith tebygol.
- Amlinellu'r dull a gymerwyd i logio a, lle bo'n briodol, i adrodd am dor-cyfraith.

### 1.3 Canllawiau a Fframwaith Rheoleiddio

Rhaid i reolwyr y cynllun ac aelodau byrddau pensiwn ystyried eu dyletswydd statudol dan adran 70 Deddf Pensiynau 2004 i asesu, ac os oes angen, i adrodd am dor-cyfraith.

- Adran 70 Deddf Pensiynau 2004

  *(1) Mae Isadran (2) yn rhoi gofyniad i adrodd ar y personau a ganlyn -*

  *(a) ymddiriedolwr neu reolwr cynllun pensiwn galwedigaethol neu bersonol;*

  *(aa) aelod o fwrdd pensiwn cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus;*

  *(b) person a fyddai'n rhan fel arall o weinyddu cynllun pensiwn galwedigaethol neu bersonol;*

  *(c) y cyflogwr mewn perthynas â chynllun pensiwn galwedigaethol;*

  *(d) ymgynghorydd proffesiynol mewn perthynas â chynllun o'r fath;*

*(e) person sydd fel arall yn rhan o gynghori ymddiriedolwyr neu reolwyr cynllun pensiwn galwedigaethol neu bersonol mewn perthynas â'r cynllun.*

*(f) strategydd cynllun neu gyllidwr cynllun mewn cynllun Prif Ymddiriedolwr o fewn ystyr Rhan 1 Deddf Cynlluniau Pensiwn 2017 (gweler adran 39 y Ddeddf honno).*

*(2) Lle mae gan y person achos rhesymol i gredu -*

*(a) na fu neu nid oes cydymffurfiaeth â dyletswydd sy'n berthnasol i weinyddiad y cynllun dan sylw, ac sy'n cael ei orfodi gan neu yn rhinwedd deddfiad neu reol y gyfraith, ac*

*(b) mae methiant i gydymffurfio yn debygol o fod o arwyddocâd perthnasol i'r Rheoleiddiwr wrth iddo weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau.*

*rhaid iddo roi adroddiad ysgrifenedig ar y mater i'r Rheoleiddiwr cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.*

*(3) Nad oes unrhyw ddyletswydd y mae person yn destun iddo i gael ei ystyried fel ei fod wedi'i dorri, oherwydd unrhyw wybodaeth neu farn sydd wedi'u cynnwys mewn adroddiad ysgrifenedig dan yr adran hon yn unig.*

*Mae hyn yn ddibynnol ar adran 311 (eitemau a warchodir).*

*(4) Mae Adran 10 Deddf Pensiynau 1995 (c. 26) (cosbau sifil), yn berthnasol i unrhyw berson sydd, heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio â goblygiad sy'n cael ei osod arno yn sgil yr adran hon.*

- Mae canllawiau ar weithredu gofyniad y Ddeddf Pensiynau 2004 uchod wedi'u cynnwys ym mharagraffau 241 i 275 Cod Ymarfer 14 y Rheoleiddwyr

# 2 Datganiad o Egwyddorion

Mae'r datganiad o egwyddorion hwn yn ymdrin â disgwyliad aelodau etholedig a swyddogion y Cyngor, ynghyd ag aelodau o'r bwrdd pensiwn, wrth ystyried tor-cyfraith:

- Mae'n bwysig adnabod, rheoli ac adrodd tor-cyfraith.  Mae'n ofyniad yng Nghod Ymarfer y Rheoleiddwyr Pensiwn; mae methu ag adrodd am dor-cyfraith perthnasol yn drosedd sifil a allai arwain at gosbau sifil.
- Ar yr un pryd, yn ogystal ag adnabod, unioni a lle bo'r angen, adrodd am dor-cyfraith penodol, mae tor-cyfraith o'r fath yn rhoi cyfle i ddysgu o gamgymeriadau ac adolygu a gwella prosesau yn yr ardaloedd lle y digwyddodd y tor-cyfraith.
- Mae disgwyl, ac yn wir gofyniad, ar yr holl staff sydd ynghlwm â gweinyddu a rheoli'r Gronfa, i gymryd dull rhagweithiol i adnabod, rheoli ac adrodd am bob tor-cyfraith sydd wedi digwydd, neu sy'n debygol o ddigwydd.
- Bydd y Cyngor, fel rheolwr cynllun y Gronfa, yn cadw log o'r holl dor-cyfraith fel sy'n berthnasol i reoli a gweinyddu'r Cynllun.
- Pan fo tor-cyfraith wedi digwydd, dylid ei adnabod a'i logio naill ai fel maes o ddiffyg cydymffurfiaeth dan y Rheoliad LGPS, tor-cyfraith dan Gyfraith Pensiwn fel y diffinnir yn adran 13 Deddf Pensiwn 2004 neu God Ymarfer y Rheoleiddiwr Pensiwn.
- Ni all y Cyngor, y swyddogion a'r bwrdd pensiwn lleol ddibynnu ar aros i adroddwyr eraill adrodd am dor-cyfraith pan fo wedi digwydd.  Lle mae tor-cyfraith wedi digwydd ac wedi cael ei adnabod gan y Cyngor, swyddogion neu fwrdd pensiwn lleol, dylid ei gofnodi, ei asesu a, lle bo'r angen, ei adrodd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

# 3 Polisi

**Beth yw tor-cyfraith?**

Tor-cyfraith yw *"gweithred o dorri neu fethu â glynu at gyfraith, cytundeb, neu god ymddygiad."* Yng nghyd-destun y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL), gall hyn gynnwys sawl agwedd o reoli a gweinyddu'r cynllun, gan gynnwys, er enghraifft, methiant:

- i wneud unrhyw beth sy'n ofynnol dan y Rheoliadau CPLlL;
- i wneud unrhyw beth sy'n ofynnol dan ddeddfwriaeth or-redol, canllawiau statudol perthnasol neu godau ymarfer;
- i gynnal cofnodion cywir;
- i weithredu ar unrhyw weithred dwyllodrus neu anwaith sy'n cael ei adnabod;
- cyflogwr i dalu cyfraniadau aelod a chyflogwr ar amser;
- i dalu buddion aelod naill ai'n gywir neu'n amserol;
- i gyflwyno datganiadau buddion blynyddol ar amser.

**Beth sy'n ddiffyg cydymffurfiaeth dan y Rheoliadau CPLlL?**

Gall diffyg cydymffurfiaeth â rheoliadau CPLlL ymdrin â sawl agwedd o reoli a gweinyddu'r cynllun, gan gynnwys methiant:

- i wneud unrhyw beth sy'n ofynnol dan y Rheoliadau CPLlL
- i gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau (e.e. Datganiad Strategaeth Buddsoddi'r Gronfa, Datganiad Strategaeth Cyllido, polisïau disgresiwn, ac ati);

**Cyfrifoldebau mewn perthynas â thor-cyfraith**

Mae'r cyfrifoldeb i adrodd am dor-cyfraith sy'n cael ei adnabod mewn perthynas â'r Cod Ymarfer yn syrthio ar yr hyn a ganlyn (sy'n cael eu hadnabod fel "adroddwyr"):

- Aelodau etholedig a swyddogion Cyngor (Rheolwr y Cynllun);
- Aelodau'r bwrdd pensiwn lleol;
- Cyflogwyr y cynllun;
- Ymgynghorwyr proffesiynol (gan gynnwys actwari'r Gronfa, ymgynghorydd buddion, ymgynghorwyr buddsoddi, ymgynghorwyr cyfreithiol); a
- Darparwyr trydydd parti (pan fônt yn cael eu cyflogi).

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i aelodau etholedig a swyddogion y Cyngor, ac aelodau'r bwrdd pensiwn lleol yn unig. Mater i'r adroddwyr eraill yw sicrhau bod ganddynt weithdrefnau a pholisïau digonol yn eu lle i adnabod, asesu a, lle bo'r angen, i adrodd ar dor-cyfraith. Bydd y Cyngor a'r bwrdd pensiwn lleol yn cymryd yr holl gamau angenrheidiol i ystyried y tor-cyfraith ac yn adrodd i'r Rheoleiddiwr, yn hytrach na chael un o'r "adroddwyr" eraill yn adrodd am y tor-cyfraith yn unig.

**Y gofyniad i adrodd am dor-cyfraith**

Dylid ystyried adrodd am dor-cyfraith sy'n effeithio ar gynlluniau pensiwn i'r Rheoleiddiwr Pensiynau.

Mae'r penderfyniad p'un i adrodd am dor-cyfraith sy'n cael ei ganfod yn dibynnu ar:

- p'un a oes achos rhesymol i gredu bod tor-cyfraith wedi digwydd;
- ac os felly, p'un a yw'r tor-cyfraith yn debygol o fod o bwys materol i'r Rheoleiddiwr?

Mae'n bwysig deall nad oes angen adrodd i'r Rheoleiddiwr am bob tor-cyfraith sy'n cael ei ganfod. Er enghraifft, lle y gellir arddangos bod camau priodol yn cael eu cymryd i unioni'r tor-cyfraith, neu bod y tor-cyfraith wedi digwydd yn sgil mân broblemau cychwynnol â systemau neu brosesau newydd neu ddiwygiedig, efallai na fydd angen adrodd am y digwyddiad i'r Rheoleiddiwr. Mae dal angen cofnodi'r holl achosion o dor-cyfraith a ganfyddir yn log tor-cyfraith y Cyngor. Bydd y log hwn yn cael ei adolygu'n barhaus i ganfod unrhyw dueddiadau yn y log tor-cyfraith a allai fod yn arwydd o fethiant difrifol neu ymddygiad twyllodrus.

Lle mae methiannau neu ymddygiad twyllodrus o'r fath yn cael ei adnabod, bydd camau yn cael eu cymryd ar unwaith i gytuno ar gynllun gweithredu a'i roi yn ei le er mwyn unioni'r mater ac atal digwyddiad o'r fath yn y dyfodol.

**Pa bryd mae angen adrodd am dor-cyfraith i'r Rheoleiddiwr?**

Mae gofyniad yn y Cod Ymarfer y dylid rhoi gwybod i'r Rheoleiddiwr am dor-cyfraith cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol unwaith bod achos rhesymol i gredu bod tor-cyfraith wedi digwydd a'i fod o bwys perthnasol i'r Rheoleiddiwr. Mewn unrhyw achos, lle yr ystyrir bod tor-cyfraith o bwys perthnasol, rhaid ei adrodd i'r Rheoleiddiwr ddim hwyrach nag un mis ar ôl dod yn ymwybodol o'r tor-cyfraith neu o'r tor-cyfraith tebygol.

Lle yr ystyrir bod tor-cyfraith o'r fath arwyddocâd fel bod angen i'r Rheoleiddiwr ymyrryd ar frys (e.e. twyll difrifol), dylid dwyn y mater i sylw'r Rheoleiddiwr ar unwaith (e.e. drwy ei ffonio'n uniongyrchol). Yna, dylid cyflwyno adroddiad ffurfiol i'r Rheoleiddiwr, wedi'i farcio fel "brys/urgent" er mwyn tynnu sylw'r Rheoleiddiwr ato.

**Asesu'r "achos rhesymol"**

Mae'n bwysig bod y Cyngor a'r bwrdd pensiwn lleol yn sicr bod tor-cyfraith wedi digwydd mewn gwirionedd, yn hytrach na'u bod yn cymryd camau gan eu bod yn amau bod rhywbeth o'r fath wedi digwydd.

Felly, bydd angen i swyddogion ac aelodau etholedig gynnal gwiriadau cadarn wrth weithredu ar unrhyw amheuaeth o dor-cyfraith. Lle bo'r angen, bydd hyn yn cynnwys cael cyngor cyfreithiol gan y Gwasanaethau Cyfreithiol (a allai argymell ceisio cyngor cyfreithiol allanol arbenigol os oes angen), ynghyd ag ymgynghorwyr eraill (e.e. archwilwyr neu actwari'r Gronfa, ymgynghorydd buddion neu ymgynghorwyr buddsoddi).

**Penderfynu p'un a yw tor-cyfraith "o bwys perthnasol" ac y dylid ei adrodd i'r Rheoleiddiwr**

Mae'r Rheoleiddiwr wedi cynhyrchu coeden benderfynu i gynorthwyo cynlluniau i ganfod difrifoldeb tor-cyfraith a p'un y dylid adrodd amdano. Wrth benderfynu ar berthnasedd unrhyw dor-cyfraith neu dor-cyfraith tebygol, bydd y Cyngor, swyddogion a bwrdd pensiwn lleol yn ystyried yr hyn a ganlyn ymhob achos:

- achos - e.e. anonestrwydd, llywodraethu gwael, gwybodaeth anghyflawn neu anghywir, gweithredu'n groes neu fethu â gweithredu'n unol â'r gyfraith;

- effaith - a yw natur y tor-cyfraith yn arwain at fwy o debygolrwydd o dor-cyfraith pellach? A yw'n debygol o achosi, er enghraifft, fesurau rheoli mewnol aneffeithiol, diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth, cofnodion anghywir, posibilrwydd y bydd rhagor o dor-cyfraith yn digwydd?;
- ymateb - e.e. cymryd camau amserol ac effeithiol i ddatrys tor-cyfraith, hysbysu aelodau'r cynllun lle bo hynny'n briodol; a
- goblygiadau ehangach - e.e. lle mae tor-cyfraith wedi digwydd yn sgil diffyg gwybodaeth neu systemau a phrosesau gwael yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd tor-cyfraith arall yn dod i'r amlwg yn y dyfodol.

Mae'r goeden benderfynu yn darparu system "goleuadau traffig" o gategoreiddio tor-cyfraith sydd wedi ei ganfod:

**Gwyrdd** - heb ei achosi gan anonestrwydd, llywodraethu gwael neu dorri'r gyfraith yn fwriadol ac nid yw ei effaith yn arwyddocaol ac mae cynllun yn ei le i unioni'r sefyllfa. Mewn achosion o'r fath, efallai na fydd y tor-cyfraith yn cael ei adrodd i'r Rheoleiddiwr, ond dylid ei gofnodi yn log tor-cyfraith y Cyngor;

**Ambr** - nid yw'n cwympo'n rhwydd i'r categori gwyrdd na choch ac mae angen ei ymchwilio ymhellach i bennu pa gamau i'w cymryd. Efallai y bydd ystyried tor-cyfraith arall sydd wedi'i gofnodi yn berthnasol wrth benderfynu ar y llwybr gweithredu mwyaf priodol. Bydd angen i'r Cyngor benderfynu p'un i hysbysu'r Rheoleiddiwr yn anffurfiol am y tor-cyfraith neu'r tor-cyfraith tebygol, gan adrodd yn ffurfiol am y tor-cyfraith os penderfynir wedi hynny i gategoreiddio'r tor-cyfraith yn goch;

**Coch** - wedi ei achosi gan anonestrwydd, llywodraethu gwael neu dorri'r gyfraith yn fwriadol ac yn cael effaith arwyddocaol hyd yn oed pan fo cynllun yn ei le i unioni'r sefyllfa. Rhaid i'r Cyngor adrodd am yr holl dor-cyfraith o'r fath i'r Rheoleiddiwr ymhob achos;

Dylid nodi bod methiant i adrodd am dor-cyfraith arwyddocaol neu dor-cyfraith tebygol yn debygol, ynddo ef ei hun, i fod yn dor-cyfraith arwyddocaol.

Bydd y Cyngor yn defnyddio coeden penderfynu'r Rheoleiddiwr fel dull o adnabod p'un a fydd unrhyw dor-cyfraith yn cael ei ystyried fel un arwyddocaol ac felly yn cael ei adrodd i'r Rheoleiddiwr.

Rhaid adrodd am unrhyw fethiant ar ran cyflogwr y cynllun i drosglwyddo cyfraniadau'r gweithiwr sy'n cael eu hystyried i fod o arwyddocâd perthnasol i'r Rheoleiddiwr ar unwaith.


Er mwyn pennu p'un a yw methiant i drosglwyddo cyfraniadau gweithiwr yn arwyddocaol ai peidio, bydd y Cyngor yn gofyn am yr hyn a ganlyn gan y cyflogwr:

- y rheswm a'r amgylchiadau am y methiant i dalu
- y camau y mae'r cyflogwr wedi'u cymryd o ganlyniad i'r methiant i dalu, a
- goblygiadau neu effaith ehangach y methiant i dalu.

Pan gytunir ar gynllun talu gyda'r cyflogwr i adfer cyfraniadau sydd heb eu talu ac y glynir ato neu mae amgylchiadau lle mae taliadau hwyr un-tro neu fethiannau gweinyddol, ni ystyrir bod y taliad hwyr o bwys arwyddocaol.

Bydd pob achos sy'n digwydd o ganlyniad i anfodlonrwydd neu anallu'r cyflogwr i drosglwyddo cyfraniadau'r gweithiwr, anonestrwydd, ymddygiad twyllodrus neu gamddefnyddio cyfraniadau'r gweithiwr, prosesau gweinyddol gwael neu fethiant i drosglwyddo cyfraniadau'r cyflogwr ymhen 90 diwrnod o'r dyddiad dyledus yn cael ei ystyried fel achos o bwys arwyddocaol a bydd yn cael ei adrodd i'r Rheoleiddiwr.

Unwaith y bydd tor-cyfraith neu dor-cyfraith tebygol wedi'i ganfod, waeth p'un a oes angen ei adrodd i'r Rheoleiddiwr, rhaid i'r rheolwr perthnasol, mewn ymgynghoriad â'r swyddog monitro, adolygu amgylchiadau'r tor-cyfraith er mwyn deall pam y bu iddo ddigwydd, canlyniadau'r tor-cyfraith a chytuno ar y mesurau unioni sydd eu hangen i atal hyn rhag digwydd eto, gan gynnwys cynllun gweithredu lle bo'r angen. Rhaid cofnodi pob tor-cyfraith yn log tor-cyfraith y Cyngor.



# 4 Proses

Mae cyfrifoldeb ar holl swyddogion perthnasol ac aelodau etholedig y Cyngor, ynghyd â holl aelodau'r bwrdd pensiwn lleol, i:

- adnabod ac asesu difrifoldeb unrhyw dor-cyfraith neu dor-cyfraith tebygol;
- adrodd pob tor-cyfraith neu dor-cyfraith tebygol i'r swyddog monitro a'r swyddog adran 151;
- ar y cyd â chydweithwyr perthnasol, cytuno ar lwybr gweithredu arfaethedig i unioni'r tor-cyfraith a rhoi mesurau yn eu lle i sicrhau nad yw'r tor-cyfraith yn ailddigwydd, gan gael cyngor cyfreithiol neu fel arall fel bo'r angen;
- sicrhau bod camau unioni priodol wedi cael eu cymryd i unioni'r tor-cyfraith neu'r tor-cyfraith tebygol a'i atal rhag ailddigwydd; a
- cydweithredu, a chynorthwyo, ag adrodd am dor-cyfraith a thor-cyfraith tebygol i'r Pwyllgor Pensiynau, bwrdd pensiwn lleol a, lle bo angen, i'r Rheoleiddiwr.

**Cyfrifoldebau'r swyddog cyfrifol**

Bydd Swyddog Monitro'r Cyngor yn gyfrifol am reoli a gweithredu'r polisi tor-cyfraith hwn.

Y Swyddog Monitro fydd yn gyfrifol am gofnodi ac adrodd am dor-cyfraith a thor-cyfraith tebygol fel a ganlyn:

- cofnodi'r holl dor-cyfraith sydd wedi'i ganfod a'r tor-cyfraith tebygol y mae'n ymwybodol ohono yn log tor-cyfraith y Cyngor;
- ymchwilio i amgylchiadau'r holl dor-cyfraith sydd wedi'i adrodd a thor-cyfraith tebygol;
- sicrhau, lle bo angen, bod cynllun gweithredu yn cael ei roi yn ei le ac y gweithredir arno i unioni'r tor-cyfraith sydd wedi'i ganfod ac i sicrhau nad oes tor-cyfraith tebyg pellach yn digwydd eto;
- adrodd i'r Pwyllgor Pensiynau a'r bwrdd pensiwn lleol:

  - pob tor-cyfraith o bwys arwyddocaol neu dor-cyfraith tebygol fydd angen eu hadrodd i'r Rheoleiddiwr cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ond ddim hwyrach nag un mis cyn dod yn ymwybodol o'r tor-cyfraith neu'r tor-cyfraith tebygol; a

  - pob tor-cyfraith arall o leiaf bob chwarter fel rhan o'r cylch Pwyllgorau.

- adrodd pob tor-cyfraith o bwys arwyddocaol i'r Rheoleiddiwr cyn cynted ag y bo'n ymarferol ond ddim hwyrach nag un mis ar ôl dod yn ymwybodol o'r tor-cyfraith.

Bydd y swyddog monitro'n penderfynu p'un a yw unrhyw dor-cyfraith neu dor-cyfraith tebygol o bwys arwyddocaol, gan roi ystyriaeth i'r canllawiau a nodwyd yn y Cod Ymarfer ac ar ôl ymgynghori â'r partïon y mae'n eu hystyried i fod yn briodol. Gallai partïon o'r fath gynnwys Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, y Pwyllgor Pensiynau a'r bwrdd pensiwn lleol.

Os yw'n briodol, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at barti allanol am unrhyw gyngor cyfreithiol neu gyngor arall angenrheidiol cyn penderfynu p'un a ystyrir bod y tor-cyfraith o bwys arwyddocaol i'r Rheoleiddiwr. Lle mae ansicrwydd ynghylch pa mor berthnasol yw unrhyw dor-cyfraith a ganfyddir, bydd gofyn i'r Cyngor, swyddogion neu fwrdd pensiwn lleol hysbysu'r Rheoleiddiwr ynghylch y mater yn anffurfiol, ynghyd â'r camau sy'n cael eu cymryd i ddatrys y mater.

**Sut ddylid adrodd am dor-cyfraith i'r Rheoleiddiwr?**

Rhaid adrodd am bob tor-cyfraith o bwys arwyddocaol i'r Rheoleiddiwr yn ysgrifenedig. Gellir gwneud hyn drwy'r post neu'n electronig. Mae'r Rheoleiddiwr yn annog defnydd o'i gyfleuster adrodd safonol drwy ei wasanaeth ar-lein, Exchange.

Bydd y Cyngor yn adrodd am bob tor-cyfraith perthnasol i'r Rheoleiddiwr drwy Exchange.

**Sut mae cofnodion am dor-cyfraith yn cael eu cadw?**

Mae'r holl dor-cyfraith a'r tor-cyfraith tebygol sydd wedi'u canfod i gael eu hadrodd i'r swyddog monitro cyn gynted ag y byddant yn cael eu canfod. Bydd y swyddog monitro yn logio'r holl dor-cyfraith ar log tor-cyfraith y Cyngor, gan gynnwys y wybodaeth a ganlyn:

- y dyddiad pan ganfuwyd y tor-cyfraith neu'r tor-cyfraith tebygol;
- enw'r cynllun;
- enw'r cyflogwr (lle bo hynny'n briodol);
- unrhyw ddyddiadau perthnasol;
- disgrifiad o'r tor-cyfraith, ei achos a'i effaith, gan gynnwys y rhesymau y mae, neu pam nad ydyw'n cael ei ystyried i fod o bwys arwyddocaol;
- p'un a ystyrir bod y tor-cyfraith yn goch, ambr neu wyrdd;
- disgrifiad o'r camau a gymerwyd i unioni'r tor-cyfraith;
- disgrifiad cryno o unrhyw oblygiadau mwy hirdymor a chamau gweithredu sydd eu hangen i atal tor-cyfraith o fath tebyg rhag digwydd eto yn y dyfodol.

Bydd y Swyddog Monitro yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw dor-cyfraith sy'n cael ei adnabod yn cael ei reoli a'i unioni'n effeithiol, gan gynnwys cyflwyno unrhyw adroddiad i'r Rheoleiddiwr. Bydd unrhyw ddogfennau sy'n cefnogi'r tor-cyfraith yn cael eu cadw hefyd.

**Canu'r gloch**

Mae'n ddyletswydd statudol i adrodd am dor-cyfraith. Mewn achosion prin, gallai hyn gynnwys dyletswydd i ganu'r gloch ar ran gweithiwr y Cyngor, swyddogion neu aelod o'r bwrdd pensiwn lleol. Nid yw'r ddyletswydd i adrodd yn gorbwyso unrhyw ddyletswyddau eraill y gallai fod ar "adroddwr", megis cyfrinachedd. Ni fydd unrhyw ddyletswydd o'r fath yn cael ei thorri drwy adrodd i'r Rheoleiddiwr. O ystyried y ddyletswydd statudol sy'n bodoli, wrth weithredu'r polisi tor-cyfraith hwn bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn glynu at ofynion y Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 i warchod gweithiwr sy'n gwneud datgeliad Canu'r Gloch i'r Rheoleiddiwr.

Fodd bynnag, nid yw'r ddyletswydd i adrodd, yn gorbwyso'r 'fraint gyfreithiol', felly nid oes yn rhaid datgelu rhai cyfathrebiadau llafar ac ysgrifenedig rhwng y Cyngor neu fwrdd pensiwn lleol ac ymgynghorydd cyfreithiol proffesiynol, os ydynt yn cwrdd ag egwyddorion braint gyfreithiol.

**Hyfforddiant**

Bydd y Swyddog Adran 151 yn sicrhau bod yr holl swyddogion ac aelodau etholedig perthnasol, ynghyd ag aelodau'r bwrdd pensiwn lleol yn cael hyfforddiant priodol ar y polisi hwn ar ddechrau eu cyflogaeth neu eu penodiad i'r bwrdd pensiwn lleol fel sy'n briodol ac ar sail barhaus.

# 5 Polisïau Cysylltiedig

Bydd angen ystyried dull yr awdurdod gweinyddu o gofnodi ac adrodd am dor-cyfraith ar yr un pryd â'r polisïau a ganlyn sy'n ymwneud â'r Gronfa:

- Strategaeth Gweinyddu
- Polisi gwrthdaro buddiannau.

# 6 Atodiad A: Sefyllfaoedd enghreifftiol

## Methiant i osod gweithiwr ar y cynllun

**Sefyllfa**

Canfyddir nad yw cyflogwr y cynllun wedi gosod gweithiwr cymwys ar y CPLlL wrth iddo ymuno.

**Camau y gellir eu cymryd**

Ar yr wyneb, bydd tor-cyfraith wedi digwydd, gan fod cyflogwr y cynllun wedi methu â gwneud rhywbeth sy'n ofynnol iddo ei wneud dan reolau'r CPLlL. Cyn penderfynu p'un i adrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau, mae angen ystyried pam fod hyn wedi digwydd a'r camau sy'n cael eu cymryd i naill ai unioni'r sefyllfa a/neu sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto. Bydd hyn yn cynnwys:

- Asesu p'un a yw'r methiant yn ymwneud â gweithiwr penodol neu a yw'n rhywbeth mwy cyffredin
- Unioni'r sefyllfa benodol hon ar unwaith
- Deall os y bu newid mewn staff yn y cyflogwr; a yw hyn wedi arwain at broblemau cychwynnol yn ystod unrhyw drosglwyddiad?
- Os oes angen, gallai'r Gronfa ddarparu hyfforddiant i'r cyflogwr ar ei gyfrifoldebau er mwyn sicrhau nad yw'r methiant yn digwydd eto

**Materoldeb**

Wrth ystyried p'un a yw'r oediad/methiant yn debygol o fod "o bwys arwyddocaol", gallech ystyried;

- A yw mynediad at y cynllun i'r aelod wedi cael ei atal yn gyfan gwbl?
- A yw'r cyflogwr wedi methu ag ymateb i ymholiadau'r Gronfa?
- A yw'r aelod heb gael y cyfle i ôl-ddyddio mynediad i'r cynllun a thalu ôl-ddyled?
- A yw'r cyflogwr wedi methu â rhoi cynllun yn ei le ar unwaith i unioni unrhyw fethiannau pellach?
- A oes mwy o aelodau wedi'u heffeithio, neu ai digwyddiad ar ei ben ei hun yw hwn?

**Os ydych chi'n ateb "do, ydy, oes" i unrhyw un o'r uchod, gallai hyn awgrymu bod hyn yn fater o bwys ac y gallai bod angen ei adrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau. Mewn unrhyw achos, dylid ychwanegu'r mater at log tor-cyfraith y Cyngor.**

## Trosglwyddo taliadau cyfraniadau yn hwyr

**Sefyllfa**

Mae cyflogwr y cynllun yn hwyr yn trosglwyddo cyfraniadau'r gweithiwr a'r cyflogwr.

**Camau y gellir eu cymryd**

Gallai fod sawl rheswm am daliad wedi'i oedi, felly er ei bod yn amlwg fod tor-cyfraith wedi digwydd, mae'n bwysig deall y rhesymau am yr oedi. I wneud hyn:

- Cysylltwch â'r cyflogwr i asesu'r rheswm am yr oedi
- Ymchwiliwch beth aeth o'i le
- Sicrhewch fod camau yn cael eu rhoi yn eu lle i atal hyn rhag digwydd eto mewn misoedd i ddod
- Cofnodwch ddeilliant eich ymchwiliad
- Sicrhewch fod prosesau yn cael eu hasesu i sicrhau eu bod yn canfod unrhyw dwyll posib

**Materoldeb**

Er y gallai'r rheswm am yr oedi wrth dalu'r cyfraniadau fod yn hollol ddiniwed, fe allai rhywbeth mwy sinistr fod ar waith ac fe allai fod "o bwys arwyddocaol". Ystyriwch;

- A yw'r cyflogwr yn anfodlon neu'n methu â thalu? e.e. yn sgil ansolfedd
- A oes unrhyw anonestrwydd ar ran y cyflogwr? e.e. peidio â thalu er mwyn gwella llif arian
- A yw'r cyflogwr yn ceisio osgoi talu cyfraniadau?
- A oes gan y cyflogwr brosesau annigonol yn eu lle i adfer cyfraniadau?
- A oes cyfraniadau wedi bod yn ddyledus am dros 90 diwrnod ers i hyn gael ei ganfod?

**Os ydych chi'n ateb "ydy, oes" i unrhyw un o'r uchod, gallai hyn awgrymu bod hyn yn fater o bwys ac y gallai bod angen ei adrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau. Mewn unrhyw achos, dylid ychwanegu'r mater at log tor-cyfraith y Cyngor.**

## Cyflwyno data diwedd y flwyddyn yn hwyr

**Sefyllfa**

Mae cyflogwr y cynllun yn hwyr yn cyflwyno ei ddychweliadau cyflog a chyfraniadau diwedd blwyddyn mewn perthynas ag aelodau gweithredol y cynllun.

**Camau y gellir eu cymryd**

Ar yr wyneb, mae hwn yn dor-cyfraith, ond efallai na fydd y cyflogwr o reidrwydd yn gwerthfawrogi arwyddocâd hyn. Gallech ystyried gwneud y pethau a ganlyn:

- Cysylltu â'r cyflogwr i asesu'r rheswm pam nad ydynt wedi'i gyflwyno
- Ymchwilio gyda'r cyflogwr beth aeth o'i le
- Rhoi camau yn eu lle i sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto
- Cofnodi eich ymchwiliadau

**Materoldeb**

A yw'r oedi/methiant yn debygol o fod "o bwys arwyddocaol"? Ystyriwch;

- A yw'r cyflogwr yn anfodlon neu'n methu â darparu'r data gofynnol? e.e. a yw ei systemau yn ddigonol?
- A yw'r cyflogwr wedi methu ag ymateb i ymholiadau'r Gronfa?
- A fydd yr oedi yn effeithio ar gyflwyniad y Datganiadau Buddion Blynyddol?

**Os ydych chi'n ateb "do, ydy, bydd" i unrhyw un o'r uchod, gallai hyn awgrymu bod hyn yn fater o bwys ac y gallai bod angen ei adrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau. Mewn unrhyw achos, dylid ychwanegu'r mater at log tor-cyfraith y Cyngor.**

## Cyflwyno datganiadau buddion blynyddol yn hwyr

**Sefyllfa**

Mae'r Gronfa yn hwyr/methu â chyflwyno datganiadau buddion blynyddol i aelodau gweithredol ac/neu gohiriedig y cynllun o fewn yr amserlen statudol.

**Camau y gellir eu cymryd**

Mae methiant i gyflwyno datganiadau buddion blynyddol neu oedi eu cyflwyniad yn dor-cyfraith amlwg. Cyn adrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau:

- Aseswch p'un a yw'r methiant yn ymwneud â chyflogwr penodol neu faterion ehangach
- Os oes newid wedi bod yn y system neu yn rheolau'r cynllun, penderfynwch p'un a yw problemau cychwynnol wedi cyfrannu at yr oedi/methiant
- Rhoi camau yn eu lle i sicrhau bod datganiadau yn cael eu cyflwyno o fewn amserlen resymol
- Rhoi camau yn eu lle i sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto
- Cofnodi'r ymchwiliadau

**Materoldeb**

A yw'r oedi/methiant yn debygol o fod "o bwys arwyddocaol"? Ystyriwch;

- A yw'r tor-cyfraith o ganlyniad i fethiant y cyflogwr i ddarparu data diwedd blwyddyn?
- A yw'r cyflogwr wedi methu ag ymateb i ymholiadau'r Gronfa?
- A fu methiant ar ran y Gronfa i gael cynllun priodol yn ei le ar gyfer y prosiect ABS?
- A yw'r Gronfa wedi methu â rhoi cynllun yn ei le ar unwaith i unioni unrhyw oedi/methiant?
- A fydd yr oedi yn effeithio ar fuddion gwirioneddol yr aelod?

**Os ydych chi'n ateb "ydy, do, bydd" i unrhyw un o'r uchod, gallai hyn awgrymu bod hyn yn fater o bwys ac y gallai bod angen ei adrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau. Mewn unrhyw achos, dylid ychwanegu'r mater at log tor-cyfraith y Cyngor.**

## Hysbysiad hwyr am fanylion rhywun sy'n gadael / ymddeol

**Sefyllfa**

Mae cyflogwr y cynllun yn methu â darparu hysbysiadau angenrheidiol am y person sy'n gadael / ymddeol i'r Gronfa.

**Camau y gellir eu cymryd**

Ar yr wyneb, bydd tor-cyfraith wedi digwydd, gan fod cyflogwr y cynllun wedi methu â gwneud rhywbeth sy'n ofynnol iddo ei wneud dan reolau'r CPLlL. Cyn penderfynu p'un i adrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau, mae angen ystyried pam fod hyn wedi digwydd a'r camau sy'n cael eu cymryd i naill ai unioni'r sefyllfa ac/neu sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto.

- Asesu p'un a yw'r methiant yn ymwneud â gweithiwr penodol neu a yw'n rhywbeth mwy cyffredin
- Unioni'r sefyllfa benodol hon ar unwaith
- Os y bu newidiadau mewn personél yn y cyflogwr, a yw hyn wedi arwain at broblemau cychwynnol yn ystod unrhyw drosglwyddiad?
- Os oes angen, gallai'r Gronfa ddarparu hyfforddiant i'r cyflogwr ar ei gyfrifoldebau er mwyn sicrhau nad yw'r methiant yn digwydd eto

**Materoldeb**

A yw'r oedi/methiant yn debygol o fod "o bwys arwyddocaol"? Ystyriwch;

- A yw'r cyflogwr wedi methu ag ymateb i ymholiadau'r Gronfa?
- A yw'r methiant wedi oedi'r asesiad a'r hysbysiad/taliad o fuddion ymddeol?
- A yw aelod y cynllun wedi colli mynediad at gyfleoedd buddsoddi yn sgil y methiant?
- A yw'r methiant wedi arwain at galedi ariannol i'r aelod?
- A yw'r Gronfa wedi methu â rhoi cynllun yn ei le ar unwaith i unioni unrhyw oedi/methiant?

**Os ydych chi'n ateb "ydy, do" i unrhyw un o'r uchod, gallai hyn awgrymu bod hyn yn fater o bwys ac y gallai bod angen ei adrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau. Mewn unrhyw achos, dylid ychwanegu'r mater at log tor-cyfraith y Cyngor.**

## Methiant i ddatgan gwrthdaro posib

**Sefyllfa**

Mae aelod o'r Pwyllgor Pensiynau neu'r Bwrdd Pensiwn yn methu â datgan gwrthdaro buddiannau posib mewn perthynas â mater sydd i'w drafod neu i wneud penderfyniad arno, sydd wedi dod i'r amlwg yn ddiweddarach.

**Camau y gellir eu cymryd**

Mae'n ofyn i ddatgan unrhyw fuddiant sy'n gwrthdaro, felly bydd tor-cyfraith wedi digwydd. Cyn penderfynu p'un i adrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau:

- Dylech bennu pam na chafodd y gwrthdrawiad buddiannau ei adrodd yn y lle cyntaf
- Dylech ystyried pa effaith gafodd hynny ar y trafodaethau a gafwyd neu'r penderfyniad a wnaed
- Tynnu sylw holl aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd at bolisi gwrthdaro buddiannau'r Cyngor
- Ystyried ailymweld â'r drafodaeth neu'r penderfyniad, gan eithrio'r unigolyn dan sylw
- Tynnu’r unigolyn oddi ar y Pwyllgor Pensiynau neu'r Bwrdd Pensiwn os ydych yn ystyried bod eu hanwaith o'r fath arwyddocâd fel ei fod wedi arwain at golli hyder yn y swyddi cyhoeddus

**Materoldeb**

A yw'r diffyg datgelu yn debygol o fod "o bwys arwyddocaol"? Ystyriwch;

- A yw'r unigolyn wedi defnyddio'r sefyllfa i gael mantais bersonol?
- A yw barn yr unigolyn wedi cael ei lywio gan y gwrthdrawiad buddiannau amlwg?
- A fyddai tynnu’r unigolyn o'r trafodaethau/penderfyniad wedi newid y deilliant yn y pen draw?
- A fyddai'r diffyg datgelu yn y sefyllfa hon yn arwain at golli hyder mewn swyddi cyhoeddus?

**Os ydych chi'n ateb "ydy, do, byddai" i unrhyw un o'r uchod, gallai hyn awgrymu bod hyn yn fater o bwys ac y gallai bod angen ei adrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau. Mewn unrhyw achos, dylid ychwanegu'r mater at log tor-cyfraith y Cyngor.**